

Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru



Cylchlythyr 3
Mehefin 2014

Mae Rhaglen Natura 2000 LIFE yn llunio cynllun strategol ar gyfer rheoli ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru, ar y tir ac yn y môr, ar gyfer y cyfnod 2014-2000 a thu hwnt. Caiff y prosiect ei roi ar waith gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chaiff gymorth ariannol gan gronfa LIFE+ yr UE.

Cynlluniau Gweithredu Thematig

Bydd Cynlluniau Gweithredu Thematig yn cael eu llunio i nodi camau gweithredu strategol i fynd i'r afael â'r prif faterion sy'n effeithio ar Natura 2000, sef:

- Llygredd aer
- Llygredd dŵr gwasgareddig
- Rheoli llifogydd/yr arfordir
- Rheoli pori a da byw
- Pysgodfeydd dŵr croyw
- Pysgodfeydd môr
- Sbwriel y môr
- Rhywogaethau goresgynol
- Rheoli coetiroedd
- Mynediad a hamdden
- Newidiadau i amodau hydrologig
- Newid yn yr hinsawdd
- Chwalu cynefinoedd

Bydd y cynlluniau'n nodi difrifoldeb y materion, ffactorau sbarduno allanol a'r pwysau ac yn amlinellu'r camau gweithredu allweddol ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau ar lefel strategol, a chostau ac opsiynau ariannu lle maent ar gael.

Mae'r Rhaglen yn gwahodd arbenigwyr yn y meysydd hyn o CNC a sefydliadau partner i fod yn rhan o'r broses ddrafftio. Cysylltwch â ni os oes gennyh ddiddordeb.

Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth (PIP)

Mae'r gwaith o greu'r cynlluniau wedi dechrau ers tro. Bydd y rhain yn nodi camau gweithredu â blaenoriaeth gyda chostau ar gyfer pob safle Natura 2000 yng Nghymru gyda'r nod o adfer y safleoedd bywyd gwyllt gorau hyn a sicrhau bod eu rhywogaethau a'u cynefinoedd dynodedig mewn cyflwr ffafriol.

Bydd y cynlluniau yn gofyn am gyfraniad sylweddol gan swyddogion cadwraeth safleoedd CNC a staff arbenigol eraill, ac mae cydgysylltwyr LIFE N2K wrthi'n teithio'r wlad yn cynnal adolygiad manwl o bob safle; mae cyfweliadau ar gyfer 40% o'r ACA/AGA wedi'u cynnal hyd yn hyn.

Meddai Jennifer Kelly: "Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech mae staff yn eu rhoi i'r broses. Ni fyddai'r gwaith hwn yn bosibl heb eu gwybodaeth a'u harbenigedd amhrisiadwy. Bydd y wybodaeth a gyflwynir gan staff yn hwyluso gwell trefniadau ariannu a rheoli i'n safleoedd Natura 2000 yn y dyfodol."

Mae'r cydgysylltwyr yn gobeithio cwblhau'r rhan fwyaf o'r cyfweliadau erbyn diwedd mis Gorffennaf, fel y gallwn orffen y cynlluniau erbyn mis Medi. Yna, byddwn yn adolygu'r data, yn mewnbynnu cronfeydd data ac yn ymgynghori â phartneriaid mewnol ac allanol, ac yn nodi'r costau terfynol.



Y Sioe Fawr

Bydd Rhaglen LIFE Natura 2000 yn cynnal digwyddiad ddydd Llun 21 Gorffennaf ym mhabell Cyfoeth Naturiol Cymru ar safle'r Sioe Fawr yn Llanellwedd.

Dyma gyfle i glywed y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd a blaenoriaethau ac ystyried opsiynau ariannu allanol. Os hoffech ddod i'r digwyddiad, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl (manylion isod) gan fod llefydd yn brin.



Fideos YouTube

Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 yn bwriadu cynhyrchu cyfres o fideos dwyieithog i hyrwyddo rhwydwaith Cymru o safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop. Byddant yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu Natura 2000 ac yn dangos sut mae mesurau rheoli cadwraeth yn gallu adfer cyflwr cynefinoedd a rhywogaethau.

Y gobaith yw cynnwys safleoedd o bob cwr o Gymru, gan arddangos yr amrywiaeth o ecosystemau morol, arfordirol, dŵr croyw ac ucheldir ac iseldir cyfoethog a sut mae pobl yn elwa arnynt.

Nid yw'r gyllideb yn un fawr felly byddai unrhyw gyfraniad gan bartneriaid yn cael ei werthfawrogi, megis ffilm sy'n bodoli eisoes, awgrymiadau am gyfleoedd ffilmio da neu sgiliau ffilmio/golygu. Dyma gyfle da i hyrwyddo'ch safle a'i gyflwyno i'r byd.

Cysylltwch â ni (manylion isod) os gallwch chi helpu.

Mwy o'r Môr

Bydd **Cynlluniau Rheoli Safleoedd Morol** ar gyfer Natura 2000 (lle maent ar gael) yn cael eu cyfuno gyda gwaith Rhaglen LIFE N2K. Datblygwyd hyn ar y cyd â Swyddogion Safle CNC, Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol, a bydd yn hwyluso trefniadau rheoli mwy cyson i safleoedd morol yn y dyfodol.

Asesiadau Newid yn yr Hinsawdd – Mae gwaith ar droed i gysoni asesiadau o safleoedd morol o safbwynt bod yn agored i niwed yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gydag asesiadau o'r fath ar gyfer safleoedd dynodedig. Bydd hyn yn rhoi asesiad cyflawn ac ategol i ni o natur agored i niwed pob nodwedd N2K yng Nghymru.

Cronfa Ddata Camau Gweithredu

Bydd Rhaglen LIFE N2K yn mewnbwnnu data o gyfweiliadau PIP i Gronfa Ddata Camau Gweithredu CNC yn y dyfodol agos. Bydd y cynnwys cyfredol ar safleoedd N2K yn cael ei adolygu, ei ddiweddarau a'i ehangu felly bydd defnyddwyr yr allrwyd yn dechrau gweld newidiadau.

Rydym ar fin cwblhau gwelliannau cysylltiedig i'r Gronfa Ddata Gweithredu, ac wedi cyflwyno meysydd newydd i gadw data PIP, ac wedi llunio adroddiad er mwyn gallu creu cynlluniau PIP yn awtomatig o'r gronfa ddata.

Mae galluoedd adrodd newydd yn cael eu datblygu hefyd er mwyn gallu craffu ar y data at wahanol ddibenion. Cysylltwch â ni os oes gennych anghenion adrodd yr hoffech i ni eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae tîm LIFE Natura 2000 yn gweithio'n agos gyda swyddogion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr CNC sydd wrthi'n llunio fersiynau drafft yr 2il gylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon yn barod ar gyfer ymgynghori'n fewnol ac yn allanol arnynt. Mae'r Cynlluniau hyn yn cynnwys mesurau i gynnwys nodweddion Natura 2000 yn y statws cadwraeth ffafriol felly mae'n bwysig rhannu a rhesymoli data rhwng y ddwy fenter. Gan fod yr amserlenni'n wahanol, bydd ymgynghoriad cychwynnol y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cynnwys data N2K hyn, ond bydd hwn yn cael ei ddiweddarau pan fydd gwaith LIFE N2K yn barod.

Adenydd cefnogaeth i Natura 2000



Staff Maes y Ffynnon, Bangor yn dangos eu cefnogaeth i Natura 2000 ar 21 Mai drwy ysgwyd eu dwylo i gyfleu adenydd glöyn byw

Teipiwch "21st of May European Natura 2000 Day" i YouTube i gael mwy o wybodaeth.

Ffocws ar nodweddion

Cyfle i ddysgu am y cynefinoedd a'r rhywogaethau gwarchoddedig yn rhwydwaith Natura 2000 Cymru.



Enw cyffredin: Madfall Ddŵr Gribog

Enw gwyddonol: *Triturus cristatus*

Ffeithiau allweddol

- Hyd: 15cm
- Oes: 6 blynedd ar gyfartaledd (15 ar y mwyaf)
- Lleoliad: Y rhan fwyaf o Gymru ac eithrio Sir Benfro a Cheredigion.
- Ein madfall fwyaf a'r un sydd dan y bygythiad mwyaf.
- Yn ystod y tymor magu, mae'r gwryw yn datblygu crib rhwng ei ben a'i gynffon, a llinell arian ar hyd canol y gynffon.
- Mae'r fadfall fenywaidd yn dodwy 250 o wyau yn y gaeaf, gan lapio pob un mewn deilen.

Contractau

Mae sawl contract allanol ar waith neu ar fin cael eu dyfarnu yn fuan.

- Contract ariannu mawr i arfarnu opsiynau ariannu cyfredol a phosibl i reoli N2K.
- Nodi gwasanaethau ecosystem a manteision economaidd nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau N2K.
- Coladu setiau data sy'n dangos dosbarthiad gofodol nodweddion N2K yng Nghymru.
- Astudiaeth o gyfyngiadau anariannol sy'n gweithredu fel rhwystrau i gyflawni cyflwr ffafriol.

IPENS

Mae ein chwaer brosiect, 'Improvement Programme for England's Natura 2000 Sites' (IPENS) yn cael ei redeg gan Natural England a'i ariannu gan LIFE+. Mae hefyd yn brysur yn datblygu Cynlluniau Gwella Safleoedd i safleoedd Natura 2000 Lloegr, sy'n debyg i'r cynlluniau PIP. Mae'r ddau brosiect wedi cydweithio'n agos dros y safleoedd trawsffiniol, ac mae gweithdrefn y cytunwyd arni ar waith ac mae'r rhan fwyaf o gynlluniau PIP y safleoedd hyn ar waith hefyd.

www.naturalengland.org.uk/ipens2000



Cyhoeddi Adroddiadau

Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 wedi cyhoeddi tri adroddiad yn disgrifio canfyddiadau'r dadansoddiad data a'r gweithdai a gynhaliwyd yn ystod 2013.

Challenges Facing Welsh Natura 2000 Habitats and Species. Roedd y canlyniadau'n dangos bod 91% o'r nodweddion wedi'u heffeithio'n andwyol gan 44 o faterion gwahanol sy'n gweithredu fel rhwystrau i sicrhau cyflwr ffafriol. Fodd bynnag, ychydig o faterion sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r pwysau – llygredd a gwastraff, rheoli amaethyddol, rheoli dŵr a rhywogaethau goresgynnol.

Addressing the Challenges on Natura 2000 Sites in Wales – edrych ar y dulliau sydd ar gael i ymdrin â materion a risgiau. Er bod 90 dull ar gael, llond llaw o ddulliau a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â dwy ran o dair o'r camau gweithredu yn cynnwys cytundebau rheoli CNC, gweithredu uniongyrchol, adolygu caniatadau gollwng, newidiadau i bolisi a deddfwriaeth, a chynlluniau amaeth-amgylcheddol i raddau llai. Mae tua un rhan o bump o gamau gweithredu cofnodedig yn gofyn am ymchwiliad, sy'n dangos diffyg gwybodaeth mewn sawl achos.

New Solutions for Natura 2000 in Wales – ystyried dulliau amgen sy'n cael eu tanddefnyddio a dulliau newydd o fynd i'r afael â materion a risgiau sy'n gysylltiedig â safleoedd Natura 2000, sy'n cael eu defnyddio neu eu treialu mewn mannau eraill. Nodwyd 89 ateb newydd, er enghraifft, integreiddio anghenion N2K yn well i strategaethau, cynlluniau a phrosiectau cyfredol, cynlluniau rheoli mater-benodol, mentrau addysg wedi'u targedu, marchnata cynlluniau achredu cynnyrch, mentrau ad-dalu ymwelwyr, talu am wasanaethau ecosystem a chyfraniadau datblygwyr.

Mae'r adroddiadau'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil yn unig ac nid ydynt yn cynrychioli argymhellion na phenderfyniadau polisi Rhaglen LIFE Natura 2000 na Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y rhain ar ein gwefan yn fuan.

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: Grŵp Canlyniad 21

Bydd y grŵp hwn, sy'n cynnwys sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol am weithredu ar safleoedd tir gwarchoddedig, yn cyfarfod ar 23 Mehefin. Bydd yr agenda'n cynnwys derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen LIFE Natura 2000 a chyfle i drafod y dulliau mwyaf effeithiol i sefydliadau gyfrannu at ddatblygu camau gweithredu'r Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth a chytuno i'w gweithredu vmhellach.



I gysylltu â Rhaglen LIFE Natura 2000, am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau yn y cylchlythyr, neu i ymuno â'n rhestr bostio, anfonwch e-bost at hayley.macdonald-jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. Neu ewch i'n gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru.gov.uk/LIFEN2K



Cefnogir gan LIFE, offeryn ariannol o eiddo'r Gymuned Ewropeaidd: N2K Cymru, LIFE 11 NAT/UK/385